



Gyrfa Cymru
Careers Wales



Bwletin Gwybodaeth am y Farchnad Lafur (LMI) Gyrfa Cymru: Medi 2023

Cyfleoedd i Raddedigion yng Nghymru





Content

1. Ciplun o benawdau graddedigion yng Nghymru	3
2. Cyflwyniad	4
3. Trosolwg o Addysg Uwch yng Nghymru.....	4
4. Penawdau allweddol	5
5. Sefydliadau Addysg Uwch yng Nghymru.....	5
6. Diwydiannau ffyniannus i raddedigion yng Nghymru.....	6
7. Sgiliau y mae galw amdanynt.....	8
8. Cynlluniau recriwtio graddedigion.....	9
9. Cyflogau graddedigion	12
10. Beth mae graddedigion a chyflogwyr yn ei ddweud am werth eu cymhwyster?.....	13
11. Casgliadau	14
12. Gwybodaeth bellach a chyfeirio.....	14



1. Ciplun o benawdau graddedigion yng Nghymru



Mae dros **40%**
o bobl ifanc yn mynd
i addysg uwch



21,400



yn ennill gradd



41%
o raddedigion
wedi'u cyflogi
ym maes lechyd
ac Addysg

23,090
o Ôl-raddedigion
yn 2022

149,000
o gofrestriadau
AU yn 2022



71%
yn gweithio yng
Nghymru ar ôl
graddio



500+
o raddau
cyfrwng
Cymraeg

Ciplun o benawdau graddedigion yng Nghymru

Bydd **95%** o
swyddi newydd
erbyn 2035 ar
lefel raddedig



15,500+
o fyfyrwyr
Prifysgol
Agored



Cyflog cyfartalog
£27,340



Graddedigion
yn ennill
21% yn fwy



2. Cyflwyniad

Yn ôl adroddiad [Jobs of the Future](#) gan Brifysgolion y DU, mae'r Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD) yn canfod bod 26% o weithwyr y DU heb gymwysterau digonol ar gyfer y rôl y maen nhw ynddi (o'i gymharu â 14.5% sy'n orgymwys), y trydydd uchaf yn yr OECD y tu ôl i Iwerddon a Seland Newydd.

'Gall tan-gymhwyso arwain at danberfformiad mewn rolau swyddi, cynhyrchiant is a llai o foddhad mewn swydd.' [Jobs of the Future](#)

Mae Cyfrifiad 2021 yn dangos bod tua 1.37 miliwn o bobl mewn cyflogaeth yng Nghymru, a nododd [Arolwg Blynyddol o'r Bobloqaeth](#) diweddaraf fod gan 38.6% o oedolion o oedran gweithio yng Nghymru gymhwyster lefel 4 neu uwch o leiaf (cyfwerth â gradd neu uwch). Mae hyn yn is na Lloegr ar 47.1%, a'r Alban yw'r wlad uchaf yn y DU ar 55.9%.

Dros y 5 mlynedd diwethaf, bu cynnydd o 5,735 mewn gradddedigion o brifysgolion Cymru (gradd gyntaf ac ôl-radddedigion) o bosibl yn ymuno â'r farchnad lafur yng Nghymru, neu ymhellach i ffwrdd. Fodd bynnag, bydd angen i'r llwybr hwn barhau i gynyddu er mwyn i Gymru gyrraedd rhagamcanion [Jobs of the Future](#) sef y bydd 95% o'r swyddi newydd yng Nghymru erbyn 2035 ar lefel raddedig, yr uchaf o bedair gwlad y DU.

Yn yr adroddiad hwn, rydym wedi archwilio ymchwil a data amrywiol sydd ar gael i grynhoi'r dirwedd a'r tueddiadau presennol ar gyfer gradddedigion yng Nghymru.

3. Trosolwg o Addysg Uwch yng Nghymru

Yn 2022, cofrestrodd tua 149,000 o fyfyrwyr yn y naw [Prifysgol yng Nghymru](#), gan gynnwys tua 25,000 o fyfyrwyr rhyngwladol, yn dod o 132 o wledydd. Yn ôl [Astudio yng Nghymru](#), maen nhw'n cael eu denu gan ddiwylliant o ragoriaeth mewn addysgu ac ymchwil.

Addysgir dros 500 o gyrsiau gradd drwy gyfrwng y Gymraeg ac mae dros 2,000 o gyrsiau gradd israddedig ar gael ym mhrifysgolion Cymru, heb gynnwys dros 200 o gyrsiau a gynigir gan y Brifysgol Agored.

Mae gan [Y Brifysgol Agored](#) dros 15,500 o fyfyrwyr ledled Cymru a dyma'r darparwr addysg uwch israddedig rhan-amser mwyaf yng Nghymru. Mae dros 139 o fusnesau yng Nghymru yn noddi gweithiwr gyda'r Brifysgol Agored.

Mae tair o naw prifysgol Cymru ymhlith 500 uchaf y *Times Higher Education* o Brifysgolion y Byd 2022. Yn y 'Whatuni Student Choice Awards' diwethaf, roedd pedwar o'r prifysgolion yn y deg uchaf yn y DU - gan gynnwys safle rhif un - yng Nghymru.




4. Penawdau allweddol

Mae'r Awdurdod Ystadegau Addysg Uwch ([HESA](#)) yn casglu ac yn cyhoeddi data ar addysg uwch yn y DU, gan gynnwys gwybodaeth am gyrchfannau graddedigion a deilliannau cyflogaeth. Mae'r data diweddaraf sy'n ymwneud ag addysg uwch yng Nghymru yn dangos:

- Bod cofrestriadau ar gyfer cymwysterau addysg uwch yng Nghymru wedi cynyddu 10% ers 2017.
- Bod astudiaethau ôl-raddedig wedi gweld cynnydd uwch o 27% ers 2017, gan gyrraedd 23,090 o gofrestriadau yng Nghymru yn 2022.
- Enillodd 21,400 o fyfyrwyr radd gyntaf ac enillodd 16,210 gymhwyster ôl-raddedig gan ddarparuwyd addysg uwch yng Nghymru yn 2022.
- Yn 2022, roedd 9,795 yn fyfyrwyr o Gymru, yn byw ac yn astudio yng Nghymru.
- Roedd 71% o raddedigion sy'n hanner o Gymru wedi dychwelyd neu wedi aros i weithio yng Nghymru ar ôl graddio.
- Mae'r sector addysg uwch yng Nghymru yn darparu 37,000 o swyddi ac yn darparu £4.4 biliwn mewn effaith economaidd i Gymru [London Economics UK Universities 2023](#)

5. Sefydliadau Addysg Uwch yng Nghymru




[What are HE students' progression rates and qualifications? | HESA](#)

6. Diwydiannau ffyniannus i raddedigion yng Nghymru

Mae data HESA yn rhoi cipolwg ar nifer y graddedigion sy'n dod o hyd i waith a'r diwydiannau hynny lle maen nhw'n cael gwaith.

Mae Cymru ymhlith y gwledydd uchaf yn y DU lle mae graddedigion naill ai'n aros neu'n dychwelyd i Gymru i weithio. Roedd 71% o raddedigion a oedd yn hanu o Gymru, wedi derbyn addysg uwch yng Nghymru ac yn parhau i weithio yng Nghymru yn 2021. Hwn oedd yr ail uchaf o blith gwledydd y DU, sef 6,080. Roedd nifer y graddedigion a oedd yn byw yng Nghymru, a gafodd eu haddysg uwch yng Nghymru ac yna'n symud allan o Gymru i weithio yn 2021 yn isel, sef 1,025.

Diwydiannau sy'n cyflogi'r nifer uchaf o raddedigion yng Nghymru, 2021



[Standard industrial classification of graduates entering work in the UK by provider | HESA](#)

Mae Siart Cylch 2 yn dangos 10 diwydiant a gyflogodd y nifer uchaf o raddedigion yng Nghymru yn 2021. Diwydiannau eraill sy'n cyflogi llai na 400 o raddedigion yng Nghymru yw Cyllid, Adeiladu, Trafnidiaeth a Logisteg, Eiddo Tiro, Dŵr a Gwastraff, Trydan a Nwy, Amaethyddiaeth, Coedwigaeth a Physgota, Cloddio a Chwarela.

O ran lefel y swyddi y mae graddedigion yn mynd iddynt ar draws pob diwydiant, nododd [Data Cyfrifiad 2021](#) o'r bobl a gyflogir yng Nghymru:

- Roedd 10.5% mewn swyddi Rheoli, Cyfarwyddydion neu Uwch Swyddogion,
- Roedd 18.2% mewn Galwedigaethau Proffesiynol,
- Roedd 11.8% mewn Galwedigaethau Proffesiynol a Thechnegol Cyswllt.

Dyma'r tri grŵp swyddi lle byddai sgiliau neu addysg lefel uwch (h.y. Lefel 4 ac uwch) yn nodweddiadol yn ofynnol ac yn ddisgwyliedig yn y rôl. Roedd mwy o bobl yn cael eu cyflogi yn y tri chategori hyn o alwedigaethau o'i gymharu ag unrhyw gategori eang eraill yng Nghymru, sef tua 554,000 o bobl. Fodd bynnag, mae prinder sgiliau lefel uwch i gwrdd â nifer y swyddi gwag,

“Ar draws y DU mae bron i filiwn yn fwy o swyddi proffesiynol o hyd na gweithwyr â graddau i'w llenwi.” [Universities UK](#)



Yn ôl dadansoddeg Lightcast™, ar draws yr holl swyddi ar-lein a hysbysebwyd yng Nghymru yn y 6 mis, rhwng mis Mawrth a mis Awst 2023, cafwyd 17,497 o bostiadau gyda chyfeiriad penodol at gymhwyster gradd neu uwch sydd ei angen ar gyfer y rôl.

Cyflogir graddedigion ar draws pob diwydiant a sector ac mae amrywiadau o fewn y sectorau. Er enghraifft, mae gan 65.8% o weithwyr yn y diwydiant fferyllol gymwysterau addysg uwch, dros ddwbl y sector gweithgynhyrchu yn ei gyfanrwydd (32.4%).

Nid yw'n syndod ein bod yn gweld y nifer uchaf o raddedigion yn dod i mewn i'r sector [lechyd](#), gan fod 9% o bobl yng Nghymru yn cael eu cyflogi yn y diwydiant gofal iechyd. Dechreuodd 41% o raddedigion Cymru mewn swyddi yn y sectorau lechyd ac Addysg yn 2021.

Mae'n anodd dweud a yw myfyriwr graddedig mewn swydd raddedig. Ar gyfer rhai swyddi, gradd yw'r unig lwybr i gyflogaeth.

'Nid yw cyfran o raddedigion yn sicrhau gwaith lefel graddedig yn gynnar yn eu gyrfa. Nid yw hyn yn golygu na fydd y gyfran hon o raddedigion byth yn cael 'swydd dda'. Mae'r rhan fwyaf o raddedigion mewn swyddi y mae gradd yn gymhwyster priodol ar eu cyfer.'

[Universities UK](#)



7. Sgiliau y mae galw amdanynt

Mae gradd yn dangos i gyflogwyr fod gan raddedigion rai rhinweddau y mae galw mawr amdanynt a all eu helpu i baratoi ar gyfer gwaith. Mae gradd yn ehangu'r opsiynau sydd ar gael yn y farchnad lafur i raddedigion o'i gymharu â'r rhai nad ydynt yn raddedigion.

'Yn y DU, mae pwnc y radd yn llai pwysig. Mae llawer o gyflogwyr yn chwilio am raddedigion cyflawn sydd â sgiliau trosglwyddadwy, yn hytrach na phynciau gradd penodol.' [Universities UK](#)

Yn aml, y profiad o fod mewn addysg uwch sy'n llywio myfyriwr graddedig a ni ddylid diystyru sgiliau meddal, cyffredinol neu drosglwyddadwy a phrofiad gwaith. Bydd llawer o bobl sy'n manteisio ar addysg uwch yn dilyn llwybrau gwahanol i gael cymhwyster lefel uwch, ac mae hyn yn werthfawr i adeiladu set sgiliau amrywiol o wahanol brofiadau bywyd a gwaith.

'Efallai na fydd llawer o raddedigion newydd sy'n gwneud cais am swydd yn llwyddiannus oherwydd eu diffyg sgiliau meddal.' [Top Universities](#)

Mae rhagamcanion cyflogaeth a galw gan y [Unit for Future Skills](#) y DU yn nodi:

- Bydd 95% o swyddi newydd yng Nghymru erbyn 2035 ar lefel raddedig
- Bydd angen 402,825 o raddedigion yng Nghymru i lenwi rolau erbyn 2035
- Dywed chwech o bob 10 (61%) o arweinwyr FTSE350 fod meddylwyr creadigol yn hanfodol i wneud y gorau o offer deallusrwydd artiffisial newydd
- Dywed 51% o arweinwyr FTSE350 y byddai graddedigion â sgiliau meddwl yn feirniadol yn bwysicach i'r gweithlu nag erioed pe bai deallusrwydd artiffisial yn cael ei ddefnyddio i awtomeiddio mwy o swyddi 'coler wen'
- Mae 50% o arweinwyr FTSE350 yn credu y bydd graddedigion y celfyddydau a'r dyniaethau yn hanfodol i helpu busnesau i gael y gorau o offer deallusrwydd artiffisial
- Dywedodd 63% y bydd angen i fusnesau weithio'n agosach gyda phrifysgolion y DU i ddatblygu piblinell dalent gyda'r sgiliau angenrheidiol
- Mae 52% o arweinwyr FTSE350 yn dweud y bydd angen i fusnesau'r DU ddibynnu'n fwy ar raddedigion prifysgolion y DU i ymateb i fylchau sgiliau a heriau gweithlu'r dyfodol

Mae'r [Busting graduate job myths report](#) yn 2022 yn datgan bod y galw yn y dyfodol am sgiliau graddedigion yn edrych yn gryf - mae dadansoddiad diweddar gan PWC yn awgrymu y bydd Deallusrwydd Artiffisial (AI) yn cynyddu'r galw am raddedigion tua 10%, gyda'r galw mwyaf am y rhai ym maes gofaliadau iechyd, TG a marchnata.



8. Cynlluniau recriwtio graddedigion

Dim ond un llwybr i gyflogaeth yw cynllun recriwtio graddedigion.

Mae cynllun graddedigion yn cynnig swydd lefel mynediad gyda chyflogwr sy'n cynnig rhaglen hyfforddi strwythuredig i raddedigion newydd, yn aml yn cael profiad eang a lleoliad mewn gwahanol adrannau ar draws sefydliad mwy. Mae'r swyddi hyn yn aml yn galluogi dilyniant cyflym i rolau rheoli neu broffesiynol gyda chyflogau uwch.

Yn draddodiadol, cyflogwyr mawr sy'n cynnig cynlluniau strwythuredig i raddedigion. Gall y cyflogwyr hyn fynychu 'ffeiriau gyrfaedd' a drefnir gan Brifysgolion, a elwir weithiau yn ddogwyddiadau 'Milkround'. Fel arfer gall ceisiadau am gynlluniau graddedig ddechrau'n gynnar ym mlwyddyn olaf yr astudiaeth derfynol. Nid mewn cwmnïau preifat yn unig y mae cynlluniau graddedigion, maen nhw hefyd yn bodoli yn y sector cyhoeddus, er enghraifft mewn awdurdodau lleol, y Gwasanaeth Sifil a'r GIG.

Dyma ddeddiad o gynlluniau graddedig amrywiol sydd ar gael yng Nghymru ac ar draws y DU.

Rhagolwg y sector diwydiant i raddedigion	Sampl o Gynlluniau Graddedig
<p>Manwerthu</p> <p>Mae'r diwydiant cyfanwerthu a manwerthu; y sector atgyweirio cerbydau modur a beiciau modur yn cyflogi 4.2 miliwn o weithwyr yng Nghymru a Lloegr. Mae hyn yn 15.0% o gyfanswm y gweithlu a'r uchaf o'r holl sectorau diwydiannol.</p> <p>Ar draws Cymru a Lloegr, mae gan 26.7% o weithwyr cyfanwerthu gymwysterau addysg uwch.</p> <p>Y galwedigaethau sydd â'r gyfran uchaf o weithwyr â chymwysterau addysg uwch yn y sector cyfanwerthu a manwerthu yw optometryddion (95.6%) a chyfrifyddion siartredig ac ardystiedig (92.8%).</p>	<p>Early Careers - Dunelm Careers</p> <p>Aldi Graduate Area Manager Programme</p> <p>Morrisons Careers - Graduates</p>
<p>Ariannol</p> <p>Disgwylir mai cwmnïau cyfrifyddu a gwasanaethau proffesiynol fydd y recriwtwyr graddedigion mwyaf yn 2023, gyda 7,610 o swyddi gwag Graduate Market Report 2023.</p> <p>Ar draws Cymru a Lloegr, mae gan 56.8% o weithwyr yn y sector cyllid ac yswiriant gymwysterau addysg uwch.</p> <p>Y galwedigaethau sydd â'r gyfran uchaf o weithwyr â chymwysterau addysg uwch yn y sector cyllid ac yswiriant yw cyfreithwyr a thwrneiod (97.1%) ac actiwarïaid, economegyddion ac ystadegyddion (95.7%).</p>	<p>Buzzwales Welsh Financial Services Graduate Programme</p> <p>Cynllun Graddedigion Archwilio Cymru</p> <p>Admiral Careers</p>
<p>Digidol</p> <p>Yn sgil AI, bydd cynnydd o 10% mewn swyddi sy'n gofyn am radd neu gyfwerth yn ystod yr 20 mlynedd nesaf.</p> <p>Rhaglennu cyfrifiadurol yw'r alwedigaeth y disgwylir iddi dyfu fwyaf erbyn 2035 yn y DU Jobs of the Future</p> <p>Mae gan grynodiad diwydiant gwybodaeth a chyfathrebu Caerdydd</p>	<p>Buzzwales Fast Track Data/AI Graduate Programme</p> <p>Capgemini Graduate Programme</p>



Rhagolwg y sector diwydiant i raddedigion	Sampl o Gynlluniau Graddedig
<p>gyfran ychydig yn uwch o'i gweithwyr â chymwysterau addysg uwch, 70.9%. Mae pencadlys y BBC yng nghanol y ddinas, a Caerdydd yw'r trydydd clwstwr cyfryngau mwyaf yn y DU.</p> <p>Mae 50% o arweinwyr FTSE350 yn credu y bydd graddedigion y celfyddydau a'r dyniaethau yn hanfodol i helpu busnesau i gael y gorau o offer AI. Jobs of the Future</p>	<p>Deloitte UK Cyber Graduate Programme</p>
<p>Iechyd</p> <p>Bydd angen dros 1.2 miliwn o weithwyr proffesiynol cyswllt iechyd a gofal cymdeithasol ar y DU gan gynnwys optegyddion, technegyddion meddygol, swyddogion tai a swyddogion ieuencid a chymunedol erbyn 2035. Jobs of the Future</p> <p>Swyddi mewn Iechyd Swyddi Dyfodol Cymru - Gyrfa Cymru</p>	<p>Rhaglen Graddedigion Rheoli Cyffredinol GIG Cymru - AaGIC</p>
<p>Gwasanaethau Cyhoeddus</p> <p>Yn ôl data Cyflogaeth y Sector Cyhoeddus, roedd 323,000 o bobl yn cael eu cyflogi yn y sector cyhoeddus yng Nghymru ym mis Mawrth 2023, cynnydd o 7,000 (2.1%) o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Mae hyn yn 10.4% o'r boblogaeth, o'i gymharu â chyfartaledd y DU o 8.7%, a gyflogir yn y sector cyhoeddus.</p> <p>Bydd angen 1 miliwn o weithwyr addysgu ac addysgol proffesiynol fel darlithwyr, athrawon a hyfforddwyr ar y DU erbyn 2035.</p> <p>Addysg oedd y sector mwyaf poblogaidd a ddewiswyd gan raddedigion o holl bynciau'r dyniaethau yn yr arolwg Deilliannau Graddedigion gan HESA.</p>	<p>Civil Service Fast Stream</p> <p>Rhaglen Graddedigion Gwasanaeth Cyhoeddus Cymru Gyfan - Academi Wales (gov.wales)</p> <p>Welsh Water Careers (dwrcymru.com)</p> <p>Trafnidiaeth Cymru</p>
<p>Hamdden a Thwristiaeth</p> <p>Y galwedigaethau sydd â'r gyfran uchaf o weithwyr â chymwysterau addysg uwch yn y sector celfyddydau, adloniant a hamdden yw cyfrifyddion siartredig ac ardystiedig (93.5%) ac archifyddion a churaduron (91.4%).</p> <p>Mae'r sector yn cyflogi pobl fedrus a chymwys iawn mewn rolau fel cadwraeth, cyfrifeg, AD, marchnata, cyfreithwyr a rheolwyr busnes.</p>	<p>Graduate Employment with Trailfinders</p> <p>Graduate Management Programme 2023 Hollywood Bowl Group</p>
<p>STEM</p> <p>Bydd angen dros 1.9 miliwn o weithwyr proffesiynol STEM ar y DU mewn meysydd fel cyfrifiadura a pheirianeg erbyn 2035. Rhaglennu cyfrifiadurol yw'r alwedigaeth y disgwylir iddi dyfu fwyaf yn y DU erbyn 2035.</p> <p>Yn sgil AI, bydd cynnydd o 10% mewn swyddi sy'n gofyn am radd neu gyfwerth yn ystod yr 20 mlynedd nesaf. Jobs of the Future</p>	<p>Atkins Graduate Development Programme</p> <p>Careers at Sterling Pharma Solutions</p>




Rhagolwg y sector diwydiant i raddedigion	Sampl o Gynlluniau Graddedig
<p>Y sectorau proffesiynol a gwyddonol, gwybodaeth a chyfathrebu, ac addysg sydd â'r gweithluoedd mwyaf cymwys ONS:Cyfrifiad 2021</p>	<p>Graduates Airbus</p>
<p>Bwyd a Ffermio</p> <p>Ar draws Cymru a Lloegr, mae gan 23.4% o weithwyr amaethyddiaeth, coedwigaeth a physgota gymwysterau addysg uwch. Powys (9.4%) ac Eden (9.1%) yw'r ddau awdurdod lleol sy'n cyflogi'r ganran uchaf o weithwyr yn y sector amaeth yn y DU.</p> <p>Mae cyfuniad o sgiliau a thechnolegau yn y sector bwyd a ffermio gyda STEM a digidol yn chwarae rhan allweddol wrth ehangu rolau Amaeth-dechnoleg (Agri-Tech).</p>	<p>Dunbia Graduate Programme</p> <p>Management Development Services Graduate Scheme</p>
<p>Gweithgynhyrchu a Pheirianeg</p> <p>Mae tua 17% o weithlu peirianeg y DU yng Nghymru. Mae gan 34% o weithlu peirianeg y DU gymhwyster gradd ac o'r rhain, mae 52% yn ferched. Bydd angen dros 1.9 miliwn o weithwyr proffesiynol STEM ar y DU mewn meysydd fel cyfrifiadura a pheirianeg erbyn 2035.</p> <p>Mae gan raddedigion o ddisgyblaethau technoleg a pheirianeg gyfraddau cyflogaeth amser llawn uwch na'r cyfartaledd i raddedigion. What do graduates do?</p> <p>Swyddi mewn Ynni Swyddi Dyfodol Cymru (llyw.cymru)</p>	<p>Program for Graduates - Celsa Group</p> <p>Find a graduate scheme - Institution of Mechanical Engineers</p> <p>Engineering graduate scheme EDF (edfenergy.com)</p>
<p>Adeiladu</p> <p>Mae 100,688 o bobl yn cael eu cyflogi yn y diwydiant Adeiladu yng Nghymru, tua 7% o'r gweithlu. Mae galw mawr am weithwyr â sgiliau digidol a gwyrd i ddylunio ac adeiladu adeiladau gwyrdach, mwy cynaliadwy.</p> <p>Swyddi mewn Adeiladu Swyddi Dyfodol Cymru (llyw.cymru)</p>	<p>Ein cynllun graddedig newydd yn creu swyddi proffesiynol newydd yng ngogledd Cymru - Adra</p> <p>Redrow: Construction Graduates</p>

9. Cyflogau graddedigion

Mae ymchwil yr Institute of Student Employers (ISE) yn dangos mai **£33,229** yw cyflog cyfartalog graddedigion yn y DU. Yn aml, mae cyflogau cyfartalog y DU yn chwyddo wrth gynnwys Llundain. Fodd bynnag, gydag ymchwil ISE yn canolbwyntio'n bennaf ar fusnesau mawr a chynlluniau graddedigion, mae'r ffigur hwn yn sylweddol uwch na chyflog cyfartalog graddedigion a adroddwyd gan yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA).

Yn ôl [data](#) o arolwg Deilliannau Graddedigion diweddaraf HESA yn 2020/21, y cyflog cyfartalog a adroddwyd gan raddedigion gradd gyntaf mewn cyflogaeth amser llawn oedd **£27,340**, bymtheg mis ar ôl graddio. Mae Tabl 3 isod yn dangos cyflogau cychwynnol cyfartalog graddedigion ar draws gwahanol rannau o'r DU, gyda chyflog cychwynnol graddedigion Cymru 9% yn is na chyfartaledd y DU. Fodd bynnag, mae'r cyflog cychwynnol Cymru yn bositif o'i gymharu â holl ranbarthau'r DU, ar wahân i Lundain, sy'n chwyddo cyfartaledd y DU.

Cyflog cychwynnol cyfartalog i raddedigion fesul rhanbarth o'r DU, 2021



Mae [Prospects](#) wedi dadansoddi sut mae cyflogau graddedigion yn amrywio yn ôl pwnc gradd ac fel y gwelwyd mewn blynnyddoedd blaenorol, adroddodd graddedigion Meddygaeth a Deintyddiaeth enillion uwch nag unrhyw raddedigion eraill o ryw fath 15 mis ar ôl graddio. Mae graddedigion Meddygaeth a Deintyddiaeth yn ennill dros £40,000 y flwyddyn ar gyfartaledd. Dilynir hyn gan raddedigion Economeg a adroddodd gyflog cychwynnol o £33,483 ar gyfartaledd yn yr arolwg.

I'r gwrthwyneb, roedd graddau'r celfyddydau creadigol yn gysylltiedig â'r enillion cyfartalog isaf ymhlith y garfan hon gyda graddedigion Sinemateg a Ffotograffiaeth, Celf, Dylunio a'r Celfyddydau Perfformio i gyd ymhlith yr enillwyr isaf ar gyfartaledd.

Yn ôl [adroddiad](#) diweddar yr Institute of Student Employers, mae graddedigion 2023 yn cael eu denu llai gan enwau mawr a chwmnïau sy'n tyfu'n gyflym ac yn cymryd golwg fwy cyfannol ar leoliad a thelerau ac amodau cyflogaeth ehangach.



Nododd adroddiad [Prospects](#) mai dim ond 3% o ymatebwyr Deilliannau Graddedigion sy'n gweithio yn y DU a ddywedodd mai'r prif reswm dros gymryd eu swydd oedd ei bod yn talu'n dda, gan awgrymu nad cyflog uchel yw'r ffactor pwysicaf bob amser wrth gynllunio eu gyrfa.

Sgoriodd y graddedigion a arhosodd yng Nghymru i weithio 4.1 (allan o 5) am 'waith teg' yn ôl arolwg HESA. Mae gan y rhai sy'n aros yn yr Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon sgoriau gwaith teg uchel o'u cymharu â llawer o rannau eraill y DU. Mae meini prawf gwaith teg HESA yn seiliedig ar dri chwestiwn allweddol:

1. Mae fy ngwaith presennol yn ystyrlon.
2. Mae fy ngwaith presennol yn cyd-fynd â'm cynlluniau ar gyfer y dyfodol.
3. Rwy'n defnyddio'r hyn a ddysgais yn ystod fy astudiaethau yn fy ngwaith presennol.

10. Beth mae graddedigion a chyflogwyr yn ei ddweud am werth eu cymhwyster?

Mae'r ymchwil diweddaraf gan Universities UK sy'n seiliedig ar 3,500 o raddedigion a 3,500 o arweinwyr busnes yn amlygu gwerth mynd i brifysgol, fel a ganlyn:

- Dywed 74% o raddedigion Cymru eu bod wedi dod o hyd i swydd sy'n adlewyrchu eu huchelgeisiau mewn llai na blwyddyn, diolch i'w haddysg prifysgol.
- Dywed 56% o raddedigion Cymru fod mynd i'r brifysgol wedi gwella sicrwydd eu swyddi.
- Dywed 75% o raddedigion Cymru fod y cymorth a gawsant yn y brifysgol wedi eu helpu i gael gwaith.
- Datgelodd 98% o arweinwyr busnes Cymru a holwyd fod graddedigion yn cyrraedd swyddi rheoli yn gyflymach, o ganlyniad i fynd i brifysgol.
- Mae 73% o arweinwyr busnes Cymru yn credu bod mynd i brifysgol yn galluogi graddedigion i feithrin sgiliau trosglwyddadwy hollbwysig.
- Byddai 88% o arweinwyr busnes yng Nghymru yn disgwyl gweld gweithwyr graddedig yn ennill mwy na'r rhai nad ydynt yn raddedigion ar ôl tair blynedd mewn cyflogaeth.
- Gall gweithwyr a gafodd radd sy'n berthnasol i'w rôl ddisgwyl gweld cynnydd o 21% yn eu henillion.



11. Casgliadau

Gyda 95% o swyddi newydd erbyn 2035 yn debygol o fod ar lefel raddedig yng Nghymru a bod angen 402,825 o raddedigion yng Nghymru i lenwi rolau erbyn 2035, mae'r sector addysg uwch yng Nghymru mewn sefyllfa gref ac mae'r niferoedd sy'n mynd i addysg uwch wedi bod yn cynyddu'n raddol dros y 5 mlynedd diwethaf.

Gyda dros 40% o bobl ifanc yn y DU yn mynd i addysg uwch ar hyn o bryd, dros amser, mae'n edrych yn debygol y bydd carfan o bobl ifanc pan y bydd y mwyafrif ohonynt yn mynd trwy addysg uwch.

Yn ôl [Universities UK](#), mae llawer o feirniaidu o'r system bresennol yn awgrymu y byddai'n well i fwy o bobl ennill cymwysterau trwy lwybrau heblaw'r llwybr 'confensiynol' o astudio gradd baglor traddodiadol yn y brifysgol yn syth o'r ysgol, e.e. dilyn prentisiaethau gradd neu raddau rhan-amser yn ddiweddarach mewn bywyd.

'Y dyfodol yw marchnad swyddi graddedigion sy'n ehangu, yn rhannol o leiaf oherwydd bydd hyblygrwydd ac addasrwydd graddedigion y DU yn parhau i fod yn fantais arbennig mewn hinsawdd cyflogaeth sy'n newid yn gyflym.'

Universities UK

12. Gwybodaeth bellach a chyfeirio

- [Gwefannau swyddi i raddedigion | Careers Wales \(llyw.cymru\)](#)
- [Opsionau i raddedigion | Careers Wales \(llyw.cymru\)](#)
- [Prospects - find and apply for a job](#)
- [UCAS - graduate jobs, internships and apprenticeships](#)
- [Welsh regional analysis - UCAS](#)
- [Graduate jobs in Wales - DWP- find a job](#)